Taflen Ffeithiau 13: Grŵp Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Yn aml iawn, trwy brofiadau pobl y daw'r cyngor gorau

- A fyddech chi'n hoffi siarad gyda rhywun sy'n defnyddio Taliad Uniongyrchol?

- Ydych chi'n rheoli Taliad Uniongyrchol ar ran rhywun arall?

- Ydych chi'n ystyried Taliadau Uniongyrchol ond fod gennych gwestiynau yr hoffech atebion iddynt?

Os mai'r ateb ydi **hoffwn/ydw** -

Mae'n bwysig gwybod na fyddwch chi ar eich pen eich hun os byddwch chi'n dewis Taliad Unionyrchol.

Mae yna grŵp o bobl sydd â phrofiad o ddefnyddio a rheoli Taliadau Uniongyrchol ac fe allwch siarad â nhw neu ymuno â'u cyfarfodydd.

Mae'r grŵp yn cwrdd trwy gydol y flwyddyn ac mae croeso i chi ymuno.

Os nad ydych chi eisiau ymuno â'r cyfarfodydd ond eich bod eisiau bod ar rhestr bostio'r rhwydwaith, fe allwn drefnu eich bod yn derbyn unrhyw wybodaeth y mae'r grŵp yn ei gynhyrchu. Bydd hyn yn eich helpu i gael y newyddion ddiweddaraf am Daliadau Uniongyrchol.

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100

E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk